

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 5ed Ebrill 2022

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan Y Cadeirydd.

Presennol - Y Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cyngorwyr, R Hefin Williams, Sasha Williams, Jane Pierce, Richard LL. Jones, Idris Thomas, Phyllis Ellis, Dawn Parry ac ymunodd Rhian Evans-Hill, a Gareth Griffiths dros y rhyngwyd yn rhithiol.

Croesawyd Y Cyngorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau - Lowri Hughes, Ynyr Parri a Elfed Williams

Rydym yn anfon ein Cydymdeimlad dwysaf a theulu y diweddar Carolyn Roberts a fu'n gyn aelod o'r Cyngor hwn ac yn weithgar oddi fewn i'r Cyngor ac o fewn ei chymuned, tan ei thrawyd a salwch dros amser hir. Talwyd teyrnged iddi gan Richard, a bu tawelwch i gofio amdani. Bu I Richard a Phyllis gynrychioli'r Cyngor yn yr angladd.

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion Cyfarfod 1af Fawrth

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Phyllis Ellis (1)

R Hefin Williams (2)

Materion o'r Cofnodion

Maes Parcio Penllyn - Derbyniwyd ymateb i'r gwyn am safon glanweithdra y cyntedd a lift. Nodwyd yn y llythyr fod trafodaethau ar y gweill gyda'r cwmni glanhau yn dilyn archwiliad trwyadl o'r maes parcio. Hyd yn hyn, nid oes dim wedi newid ac mae'r lifftiau allan o ddefnydd ers pythefnos.

Goleuadau is orsaf drydan Pentir - Derbyniwyd llythyr yn ymateb ein pryderon ar y safle, hyd yn hyn mae'r sefyllfa wedi gwella, ond wedi dweud hynny mae hi yn oleuach oherwydd amser y flwyddyn. Cawn weld eto sut fydd hi fis Hydref.

Llythyrau Diolch - Derbyniwyd llythyr diolch am rodd ariannol i fudiadau gan Glwb Crefft Rhiwlas. Oherwydd eu bod wedi methu agor cyfrif banc oherwydd y cyfnod clo, bu i ni ddal y taliad yn ôl nes iddynt gael cyfrif yn enw'r clwb. Pob dymuniad da i'r clwb wrth iddynt ail gychwyn cyfarfod.

Goryrru Dinorwig - Siomedig oedd ymateb y cyngor Sir i'r broblem yma i ddweud y gwir, ac nad oedd ganddynt yr hawl i ail osod arwyddion cyflymdra ar strydoedd sydd wedi eu goleuo o dan ddeddfau'r briffordd. Ni does ganddynt ddylanwad chwaith ar gwmnïau preifat sydd yn rhaglennu eu systemau fel sat nav. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i newid cyflymdra o 30 i 20 m.y.a., ac am roi sylw penodol i .

Gohebiaeth a Materion Eraill

Gwarchod Enwau lleoedd Cymraeg - Penderfynwyd eto i gefnogi Cylch yr Iaith i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sicrhau gwarchodaeth statudol i enwau lleoedd dirweddol ac enwau

tai Cymreig. Mae hyn mor bwysig i hanes o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru ac yn bwysicach ein hardal ni.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C22/0209/18/LL - Gwyndy, Bethel.

Lleoli 4 pod glampio, cynllun draenio, llecynnau parcio, llwybrau a thirwedd.

Nid oedd gwrthwynebiad, fodd bynnag, roedd y Cyngor yn siomedig fod paratodau wedi ei wneud ar4 gyfer hyn cyn cael caniatâd cynllunio swyddogol.

C22/0264/18/LL, Tir yn garnedd, Deiniolen

Codi stablau symudol Newydd a mynedfa gerbydol ar ddarn o dir amaethyddol presennol.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i godi stablau, ond bod gwrthwynebiad i gre mynedfa Newydd, oherwydd bod y lleoliad ar ffordd berygl, ac ar gongl guddiedig.

C22/0301/18/LL 24 Bro eglwys, Bethel

Estyniad deulawr ar ochor yr eiddo.

Dim Gwrthwynebiad

C22/0227/18/LL - Glanrhyd, Pentir

Creu mynedfa Newydd, gosod wyneb caled a lleoli adeilad ar gyfer peiriant gwerthu llefrith

Dim Gwrthwynebiad

C22/0245/18/CC - Caffi caban Brynrefail

Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed

Dim Gwrthwynebiad

C22/0210/18/DT - Glanrhydfadog, Deiniolen

Estyniadau a newidiadau

Dim Gwrthwynebiad

C22/0192/18/DT - 12 Hafod Olau, Deiniolen

Dymchwel adeilad allanol yn y cefn a chodi estyniad un llawr yn ei le.

Dim Gwrthwynebiad

C22/0253/18/DT - Glyn Arthur, Penisa'r-waun

Estyniad un llawr ar gefn ac ochor yr annedd.

Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Penisa'r-waun - Llwybr 93

Cwyn gan bobl Brynhyfryd fod cwter yn arfer bod yno ar y Ffordd Llwybr, erbyn hyn mae dŵr yn sefyll yno ac yn fwdlyd ofnadwy.

Bethel - Llwybr o Gefn Cae Pêl-droed Bethel I Lôn Cae Metta.

Mae yna ddarn yno oedd fel llyn tua mis yn ôl yn dechrau sychu bellach. Ond mae ffosydd ger yr ochor a gwartheg wedi bod yno ac mae'r lle yn wlyb a thyllau.

Cysylltu â'r Adran Llwybrau i holi hefyd ynglŷn â chynllu gwella, a threfnu cyfarfod.

Rhiwlas - Llwybr Carreg y Gath

Yn dilyn datblygiad unwaith eto a digwyddiad o fod wedi codi'r Llwybr a gosod draeniau i lawr, er ein bod wedi gofyn sawl Gwaith am gael rhoi'r Llwybr ar y map yn gywir, bellach mae yn rhaid symud ar y mater, ac wedi dechrau ar y gwaith gyda'r Cyngor Sir. Yn anffodus, mae hi dipyn bach yn broses hir, gymhleth, ond o leiaf mae llygedyn o obaith erbyn hyn i gael cywiro'r mapiau lle mae'r Llwybr yn ymddangos yn anghywir.

Lloches Bws Brynrefail

Yn dilyn derbyn amcan bris gan gwmni oedd mai'r Cyngor Sir yn ei ddefnyddio, oedd yn sobor o ddrud, penderfynwyd holi am amcan bris gan gwmni lleol.

Roedd y pris yn ffafriol a chynigwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol i ofyn i'r cwmni symud ymlaen a gosod cysgodfa'n bws Newydd yno.

Richard Ll. Jones (1)

R. Hefin Williams (2)

Adroddiad Blynyddol ac amserlen Hyfforddiant

Mae'r Cyngor bellach angen cyhoeddi adroddiad blynyddol cyn gynted â phosib yn fis Ebrill. Cyflwynwyd yr adroddiad am sêl bendith, a bydd yr adroddiad i weld ar yr hysbysfwrdd neu ar wefan y cyngor cymuned.

Cyflwynwyd mantolen ariannol am y flwyddyn hefyd, a bydd y clerc yn paratoi'r llyfrau a chofnodion a chysylltu ag archwilwyr mewnol am awdit yn ystod y mis.

Rydym hefyd fel; Cyngor yn gorfod creu amserlen o hyfforddiant i gynghorwyr cymunedol erbyn mis Tachwedd. Awgrymwyd fod pawb yn edrych ar y rhestr hyfforddiant sydd ar gael, o'r rhestr sydd eisoes wedi gyrru allan iddynt, a bydd trafodaeth ar hyn yn ystod y misoedd nesaf.

O Gwmpas y Bwrdd

Côr Cymru - Pleser pur oedd gweld Huw Ffowcs yn enedigol o'r plwyf yn arweinydd y côr a ddaeth i'r brig sef Côr Dydd. Huw yn enedigol o Fethel, wedi mynychu Ysgol Gynradd Bethel ynghyd ac Ysgol Brynrefail, yna ers rhai blynyddoedd bellach yn gweithio ac yn byw i lawr yn y ddinas fawr, Caerdydd. Llongyfarchiadau anferthol i ti Huw, rydym mor falch o gael cyfeirio atat fel hogyn o Landdeiniolen!

Eco'r Wyddfa - Rydym hefyd fel Cyngor yn llongyfarch pawb sydd wedi bod dros y blynyddoedd ynghlwm a sicrhau ein bod fel ardal wedi derbyn a chael mwynhau darllen yn fisol 500 o gyhoeddiadau o'r Eco. Diolch I chi gyd am eich Gwaith called bod yn unrhyw ffordd, a diolch i bawb sydd yn cyfannu at ei gynnwys bob mis. Bydded hir barhad iddo.

Ardal Ni 2035 - Hoffwn fel Cyngor dynnu sylw, gan obeithio fod pawb wedi llenwi'r holiadur holl bwysig yma.

Stryd Fictoria, Deiniolen - Mae wal y cau yn disgyn i lawr mewn sawl lle, ac mae'r ardal yma yn flêr wrth ddod i mewn i Ddeiniolen. Mae pryder am beth sydd yn digwydd i'r cae, ac mae angen sicrhau fod yna well trefn yn y parcio wrth ollwng plant i lawr i'r ysgol. Nid ydym yn siŵr bellach pwy yw'r tiffeddiannwr. Y clerc i geisio datgelu a gyrru llythyr i'r Cyngor ynglŷn â'r wal

Cadarnhau Taliadau:

DIM